



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	26 Chwefror 2020
TEITL	Cyllideb Sylfaenol 2020/21
PWRPAS	Cyflwyno i'r Cydbwyllgor : <ul style="list-style-type: none">• Cyllideb Sylfaenol GwE 2020/21 (Atodiad 1)• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2)
ARGYMHELLIAD	Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2020/21 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.
AWDUR	Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd

1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI (gweler Atodiad 1).

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau yn Atodiad 2.

2. Targed Arbedion

- 2.1 Yn ystod 2019/20 gweithredwyd strategaeth i adnabod cyfanswm cronnus arbedion o £206,485.
- 2.2 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad Fforwm Prif Weithredwyr Gogledd Cymru ar 31 Ionawr 2020 i ychwanegu chwyddiant yn llawn, ac i beidio gweithredu toriad yn 2020/21.
- 2.3 Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth yn annigonol ar gyfer amlygu goblygiadau ariannol grantiau yn 2020/21.

3. Cronfa Tanwariant

- 3.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2019/20 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £250,567 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2020.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2020/21

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2020/21

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.